# Galw'r Cynulliad yn ôl

5 Mai 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 7 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

> *Beth oedd cost galw Aelodau'r Cynulliad yn ôl i drafod dur Tata a gwerthu'r safle yng Nghymru?*

Roedd rhywfaint o waith cynnal a chadw wedi'i drefnu ar gyfer toriad y Cynulliad ac roedd hwn yn cyd-daro â'r adeg y cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei alw yn ôl, sef dydd Llun 4 Ebrill 2016. O ganlyniad, cwblhawyd y darnau hyn o waith yn gyflymach am gost o £2,343.05. Roedd y swm hwn yn cynnwys llafur ychwanegol a goramser.

Caiff unrhyw dreuliau a ysgwyddwyd ac a hawliwyd gan Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys y rheini'n ymwneud â chostau teithio a hawliadau am aros dros nos, eu cyhoeddi ar y System Cyhoeddi Lwfansau (sydd ar gael yma: http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-expenses-2.htm).

Gellir rhannu'r wybodaeth hon yn ôl Aelod Cynulliad a/neu yn ôl y mis neu'r flwyddyn pryd yr ysgwyddwyd y treuliau, a gellir hidlo'r canlyniadau eto yn ôl y math o lwfans neu dreuliau. Mae angen i hawliadau am dreuliau gael eu cyflwyno o fewn tri mis i'w hysgwyddo a chaiff hawliadau o'r fath eu cyhoeddi'n awtomatig ar ddydd Gwener gwaith olaf bob mis, dri mis wedyn. Caiff unrhyw hawliadau sy'n ymwneud â'r Cyfarfod Llawn ar 4 Ebrill 2016 eu cyhoeddi ar ddiwedd mis Gorffennaf 2016.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6544
E-bost / Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF